# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **CYFARWYDDIAETH:** | Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |
| **ADRAN:** | Gofal Cymdeithasol i Oedolion |
| **SWYDD:** | Therapydd Galwedigaethol 1 a 2 |
| **GRADD Y SWYDD:** | Gradd 10 – Newydd Gymhwyso<br>Gradd 12 – Yn amodol ar 2 flynedd o brofiad ôl-gymhwyso |
| **YN ATEBOL I'R:** | Rheolwr Cynorthwyol - Tîm Asesu ac Ailalluogi Tymor Byr / Rheolwr Tîm Cynorthwyol – Tîm Asesu Arbenigol |

---

**DIBEN Y SWYDD:**

I ddarparu mewnbwn Therapi Galwrdigaethol I'r gawasanaeyh gofal cartref Cymorth Gartref. Nod y gwasanaeth yw cynnal neu wella gweithrediad pobl sy'n byw gyda

Demntia neu nam gwybyddol. Darperir y gwasanaeth gan dim o Weithwyr Gofal Cymdeithasaol a byddwch yn darparu'r aeweiniad proffesiynol I'e tim.

Prif nod Therapi Galwedigaethol mewn Gofal Cymdeithasol yw sicrhau annibyniaeth a diogelwch mwyaf posibl pobl sydd ag anghenion cymhleth sy'n deillio o anableddau corfforol a gwybyddol, rhoi cyngor sy'n eu helpu i reoli effeithiau eu cyflwr a chynorthwyo'r rhai sy'n rhoi gofal iddynt yn eu cartref a'u hamgylchedd eu hunain. Bydd y Therapydd Galwedigaethol yn gweithio ar y cyd ag amrywiaeth eang o weithwyr proffesiynol iechyd, gofal cymdeithasol a thai yn ogystal ag asiantaethau partner a darparwyr gwasanaethau i sicrhau bod gofal cymdeithasol yn cael ei ddarparu yn y ffordd fwyaf effeithlon a chost-effeithiol posibl.

Defnyddio ei sgiliau clinigol a'i wybodaeth arbenigol i gynnal asesiadau gweithredol ac amgylcheddol yn y cartref gydag unigolion sydd ag anableddau corfforol a gwybyddol. Bydd y Therapydd Galwedigaethol yn gweithio gyda phobl o bob oedran er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r problemau ymarferol, bob dydd a all ddeillio o anabledd ac i sicrhau cymaint o annibyniaeth â phosibl iddynt.

Datblygu cynlluniau ymyriad i ddiwallu anghenion a nodwyd ar gyfer yr unigolyn, gwneud y trefniadau angenrheidiol i weithredu'r cynllun ymyriad, gwerthuso canlyniad ei ymyriad a hysbysu a chynnwys eraill fel y bo'n briodol.

Dilyn y safonau proffesiynol ac ymarferol a osodwyd gan y Coleg Brenhinol Therapyddion Galwedigaethol a chan y Cyngor ar bob adeg.

---

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Cynnal asesiadau Therapi Galwedigaethol arbenigol o bobl sydd ag anghenion sy'n deillio o anableddau corfforol neu wybyddol yn eu hamgylchedd cartref, gan nodi rhwystrau gweithredol ac amgylcheddol i annibyniaeth, gan weithio'n unigol ac ar y cyd â gweithwyr proffesiynol iechyd, gofal cymdeithasol a thai eraill fel sy'n ofynnol.
- Defnyddio amrywiaeth eang o sgiliau a gwybodaeth Therapi Galwedigaethol i roi cyngor ar dechnegau sy'n gwella gweithrediad, yn hybu annibyniaeth, yn helpu pobl i reoli effeithiau eu cyflyrau, cynyddu diogelwch, neu'n cynorthwyo'r rhai sy'n rhoi gofal.
- Yn dilyn asesiad cynhwysfawr o risgiau, rhagnodi offer neu addasiadau sy'n hyrwyddo annibyniaeth, yn gwella diogelwch neu'n cefnogi'r rhai sy'n rhoi gofal yn eu rôl. Bod yn broffesiynol gyfrifol am unrhyw offer neu addasiadau a ragnodwyd.
- Yn ôl y galw, ymgymryd â rôl Gweithiwr Proffesiynol Arweiniol/cydlynydd gofal mewn ymyriadau amlddisgyblaethol. Bydd hyn yn cynnwys cynnull a chadeirio cyfarfodydd a chynadleddau achos gyda theuluoedd, cynrychiolwyr asiantaethau partner, a/neu eraill a chyflwyno gwybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau.
- Cynnal asesiadau risg codi a chario a rhoi gwybodaeth am arferion gweithio diogel i'r rhai sy'n cael tâl am roi gofal a'r rhai sy'n rhoi gofal yn anffurfiol. Bydd hyn yn cynnwys cynghori defnyddwyr gwasanaethau, y rhai sy'n rhoi gofal a staff ynghylch codi a chario'n ddiogel a thechnegau trosglwyddo.
- Cysylltu ag asiantaethau partner, unigolion, y rhai sy'n rhoi gofal ac eraill ar faterion sy'n ymwneud ag addasiadau amgylcheddol, offer cymunedol a darparu gofal.
- Mynd ati'n annibynnol i reoli llwyth achosion cymhleth, gan sicrhau bod pecynnau gofal yn cael eu teilwra i ddefnyddio offer cymunedol i'w botensial mwyaf a galluogi codi a chario gan ofalwr unigol lle bynnag y bo'n ymarferol. Sicrhau bod yr holl gofnodion a dogfennaeth yn cael eu cynnal yn unol â safonau gwasanaeth Coleg y Therapyddion Galwedigaethol, yr awdurdod lleol a'r gwasanaeth a gallu rhoi adborth cywir i eraill.
- Paratoi adroddiadau safonol a chyfrannu at adroddiadau i'r llys/tribiwnlysoedd yn ôl yr angen.
- Cymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol parhaus staff yn y tîm a chyfrannu at hyn a mynd ati i gyfrannu at hyfforddi a datblygu timau a gwasanaethau eraill drwy rannu gwerthoedd ac ymarfer Therapi Galwedigaethol.

**Gradd 12 – Fel yr uchod ynghyd â:**

- Cynnal asesiadau mwy cymhleth/arbenigol o amgylchiadau a materion yr unigolyn.
- Arwain cydweithio yn rheolaidd â Therapyddion Galwedigaethol llai profiadol mewn achosion cymhleth.
- Rhoi cyngor a chanllawiau mwy arbenigol i Therapyddion Galwedigaethol llai profiadol ac aelodau eraill o'r tîm a chynorthwyo eu datblygiad.
- Darparu goruchwyliaeth a mentora i staff cymorth, myfyrwyr ac aseswyr dibynadwy yn y tîm.
- Ymgymryd ag achosion sensitif, acíwt a chymhleth ar gyfer oedolion sy'n gofyn am lunio asesiadau cynhwysfawr a/neu adroddiadau ar gyfer y Llys Gwarchod, Llys Ynadon, Llys Sirol, Tribiwnlysoedd a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu

o Ryddid (Dols). Rhoi cyngor/tystiolaeth broffesiynol a gweithredu fel tyst arbenigol, yn bersonol, yn ôl yr angen.

- Mynd ati'n rheolaidd i gynrychioli ac eirioli ar ran unigolion agored i niwed, teuluoedd a gofalwyr gan sicrhau bod eu hawliau'n cael eu cadarnhau mewn fforymau gwahanol, e.e. cynrychioli'r cyngor mewn lleoliadau amlasiantaethol a rhyngddisgyblaethol.
- Cynnal Asesiadau Galluedd Meddyliol (MCA) a phenderfyniadau budd pennaf yn unol ag egwyddorion yr MCA (2005).

## DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL

### Iechyd a Diogelwch
Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch

### Cyfle Cyfartal
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

### Diogelu
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion neu'r Gwasanaeth IAA Plant o fewn MASH.

### Adolygiad a Hawl i Amrywio
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

### Swyddfa Cofnodion Troseddol
Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

# Manyleb y Person

## Therapydd Galwedigaethol 1 a 2

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon.  Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol (Ydy).

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • Cymhwyster Therapi Galwedigaethol cydnabyddedig e.e. BSc Anrhyd, DipCOT.<br>• Cofrestriad HCPC dilys fel Therapydd Galwedigaethol ar gyfer arfer proffesiynol.<br>• O leiaf 2 flynedd o brofiad ôl-gymhwyso. | Ydy<br>Ydy<br>OT2 yn unig | Cyflwyno tystysgrifau cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Profiad o weithio gyda phobl hŷn ac anabl sydd ag anghenion cymhleth ac effeithiau hyn ar unigolion/ gofalwyr/ teulu.<br>• Ymrwymiad i ddulliau amlddisgyblaethol ac integredig effeithiol o ran gwaith.<br>• Profiad o ragnodi offer cymunedol ac addasiadau mawr.<br>• Profiad o gynllunio a gweithredu rhaglenni adsefydlu.<br>• Profiad o ddefnyddio systemau TG a chronfeydd data at ddibenion gwaith.<br>• Gwybodaeth am faterion cyfredol ac arfer gorau'n ymwneud â Therapi Galwedigaethol.<br>• Gwybodaeth am bolisi cenedlaethol, canllawiau statudol a'r Gyfraith bresennol fel y maent yn cael eu cymhwyso a sut y maent yn effeithio ar bobl sy'n fregus ac yn anabl o ran darparu Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ac Iechyd a Thai.<br>• Gwybodaeth am y Fframwaith Asesu Integredig a Gofal Parhaus y GIG.<br>• Profiad o reoli achosion cymhleth.<br>• Gwybodaeth gynhwysfawr am bolisïau a phrosesau Diogelu, y Ddeddf Galluedd Meddyliol/DoLs a'r Llys Gwarchod a chymhwyso hyn.<br>• Profiad uniongyrchol o waith llys. | Ydy<br>Ydy<br><br><br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br><br>OT2 yn unig<br>OT2 yn unig<br>OT2 yn unig | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Sgiliau rhyngbersonol a phobl da. | | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |
| | • Gallu rheoli eich llwyth gwaith eich hun, blaenoriaethu achosion yn briodol, gyda chymorth rheolaidd a goruchwyliaeth Uwch-ymarferydd Rheolwr Cynorthwyol Therapi Galwedigaethol. | Ydy | |
| | • Gallu gweithio'n therapiwtig gydag unigolion, teuluoedd a gofalwyr, ac fel rhan o dîm amlddisgyblaethol integredig | Ydy | |
| | • Gallu ac ymrwymiad i weithio yn ôl egwyddorion dulliau sy'n seiliedig ar gryfderau a'r model cymdeithasol o anabledd. | Ydy | |
| | • Gallu gweithio mewn partneriaeth â gweithwyr proffesiynol a sefydliadau eraill. | | |
| | • Yn rhagweithiol wrth geisio'r canlyniadau gorau i unigolion a'u teuluoedd. | Ydy | |
| | • Gallu gweithio'n hyblyg ac yn rhagweithiol. | Ydy | |
| | • Sgiliau cadw cofnodion cywir ac ysgrifennu adroddiadau. | Ydy | |
| | • Trwydded yrru gyda mynediad i gerbyd. | Ydy | |
| | • Bod yn gyfrifol am sicrhau eich datblygiad proffesiynol parhaus eich hun, a chynnal portffolio ysgrifenedig. | | |
| | • Dangos gallu i wneud penderfyniadau effeithiol, annibynnol, gan gymhwyso lefel uchel o allu ymarfer wrth reoli llwyth achosion cymhleth iawn. | OT2 yn unig | |
| | • Sgiliau datrys problemau rhagorol wrth weithio o dan bwysau a blaenoriaethu llwythi achosion. | OT2 yn unig | |
| | • Sgiliau asesu ac ymchwilio amlwg. | OT2 yn unig | |
| | • Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | | |